**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Y Pwyllgor Cyllid

# Adroddiad ar gyllideb ddrafft Comisiwn y Cynulliad ar gyfer 2014-15

Hydref 2013

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r adroddiad hwn ar wefan y Cynulliad Cenedlaethol:
**www.cynulliadcymru.org**

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

Y Pwyllgor Cyllid
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

Ffôn: 029 2089 8409
Ffacs: 029 2089 8021
E-bost: PwyllgorCyllid@cymru.gov.uk

Mae gwybodaeth am y Pwyllgor, ei aelodau, ei gylch gwaith a'i gyhoeddiadau blaenorol i'w chael yn: **http://www.senedd.cynulliadcymru.org/mgCommitteeDetails.aspx?ID=229**

Mae rhestr o dystion a thystiolaeth lafar ac ysgrifenedig sy'n ymwneud â'r adroddiad hwn ar gael yn: **http://www.senedd.cynulliadcymru.org/mgIssueHistoryHome.aspx?IId=5722**

© Hawlfraint Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2013
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difrïol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Y Pwyllgor Cyllid

# Adroddiad ar gyllideb ddrafft Comisiwn y Cynulliad ar gyfer 2014-15

Hydref 2013

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

**Y Pwyllgor Cyllid**

Sefydlwyd y Pwyllgor ar 22 Mehefin 2011. Rôl y Pwyllgor Cyllid yw gweithredu'r swyddogaethau a nodir yn Rheol Sefydlog 19. Mae hyn yn cynnwys ystyried unrhyw ddefnydd ar adnoddau gan Gomisiwn y Cynulliad neu Weinidogion Cymru, ac yn benodol cyflwyno adroddiad yn ystod cylch blynyddol y gyllideb. Gall y Pwyllgor hefyd ystyried unrhyw fater arall sy'n ymwneud â gwariant o Gronfa Gyfunol Cymru.

**Aelodau cyfredol y Pwyllgor**



**Jocelyn Davies (Cadeirydd)**
Plaid Cymru
Dwyrain De Cymru



**Peter Black**
Democratiaid Rhyddfrydol Cymru
Gorllewin De Cymru



**Christine Chapman**
Llafur Cymru
Cwm Cynon



**Paul Davies**
Ceidwadwyr Cymreig
Preseli Sir Benfro



**Mike Hedges**
Llafur Cymru
Dwyrain Abertawe



**Ann Jones**
Llafur Cymru
Dyffryn Clwyd



**Julie Morgan**
Llafur Cymru
Gogledd Caerdydd



**Simon Thomas**
Plaid Cymru
Canolbarth a Gorllewin Cymru

## Cynnwys


**Rhagair y Cadeirydd** ..... 5

**Argymhellion y Pwyllgor** ..... 6

**Cyflwyniad** ..... 7

Pwy ydym ni? ..... 7

Beth yw Comisiwn y Cynulliad? ..... 7

Beth yw cyllideb ddrafft Comisiwn y Cynulliad? ..... 7

Pam craffu ar y gyllideb ddrafft? ..... 8

Sut yr aethom ati i graffu ar y gyllideb ddrafft? ..... 8

**1. Cyllideb Comisiwn y Cynulliad yn gyffredinol** ..... 10

**2. Fforddiadwyedd** ..... 12

Y Cynllun Ieithoedd Swyddogol ..... 12

Y Strategaeth TGCh ..... 13

Y Bwrdd Taliadau ..... 14

**3. Blaenoriaethu** ..... 15

Cynaliadwyedd ..... 15

Trawsnewid Strategol ..... 15

Ymgysylltu â phobl ifanc ..... 16

Ymweliadau gan ysgolion ..... 16

**4. Gwerth am arian** ..... 19

Paratoi at y dyfodol ..... 19

**5. Y broses** ..... 21

Dangosyddion perfformiad ..... 21

Dim ffigurau ar gyfer y drydedd flwyddyn. ..... 21

Tryloywder yn erbyn hygyrchedd ..... 21

**Tystion** ..... 23

**Rhestr o'r dystiolaeth ysgrifenedig** ..... 23

## Rhagair y Cadeirydd

Y llynedd, argymhellodd y Pwyllgor Cyllid y dylai'r Comisiwn gynhyrchu dangosyddion perfformiad i sicrhau bod pobl Cymru, a'u cynrychiolwyr etholedig, yn gallu gweld pa wahaniaeth roedd buddsoddiadau'n ei wneud.

Rwy'n falch o weld bod y rhain wedi'u cyhoeddi ochr yn ochr â'r gyllideb eleni, a bydd y dangosyddion hyn, - er nad ydynt yn berffaith - yn cynnig data mwy gwerthfawr fyth wrth iddynt ddatblygu ac wrth i ragor o gymariaethau blynyddol gael eu cynnwys. Mae hyn yn gam mawr ymlaen o ran dangos i bobl Cymru beth a gânt am yr arian y bydd eu Cynulliad Cenedlaethol yn ei wario.

Hon yw'r drydedd flwyddyn yng nghynllun buddsoddi'r Comisiwn, a'r olaf, ac mae'r Pwyllgor Cyllid wedi dweud yn glir y bydd yn rhaid i'r gyllideb y flwyddyn nesaf gadw o fewn y terfynau a bennir ar gyfer cyrff cyhoeddus eraill Cymru. Mae'r ffigurau dangosol yn dangos bod y Comisiwn yn barod i wneud hyn.

Mae'r Comisiwn yn parhau i amau a all y Comisiwn gyflawni ei amcanion uchelgeisiol mewn nifer o feysydd: sicrhau bod dwy iaith swyddogol Cymru yn cael yr un statws; cyflwyno'i strategaeth TGCh newydd a chwblhau camau olaf anodd ei dargedau ar gyfer 2015 o ran lleihau ei effaith ar y blaned.

Fodd bynnag, mae'r Comisiwn wedi cadw at ei gynllun i fuddsoddi, a bydd yn awr yn dilyn llwybr mwy gofalus ar gyfer gweddill y Pedwerydd Cynulliad. Bydd y Pwyllgor Cyllid, wrth gwrs, yn cadw llygad craff ar hynt ei waith.

Hoffwn ddiolch i'r tystion ac i'm cyd-aelodau ar y Pwyllgor am eu cyfraniadau drwy gydol y broses o graffu ar gyllideb ddrafft Comisiwn y Cynulliad.

## Argymhellion y Pwyllgor

Mae argymhellion y Pwyllgor i Gomisiwn y Cynulliad i'w gweld isod, yn y drefn y maent yn ymddangos yn yr adroddiad hwn. Ewch i'r tudalennau perthnasol yn yr adroddiad i weld y dystiolaeth sy'n cyd-fynd â'r argymhellion a'r casgliadau:

**Argymhelliad 1.** Rydym yn argymell bod aelod o'r Pwyllgor (Paul Davies AC) yn gweithio'n agos gyda'r Comisiwn i graffu ar wariant ac i adrodd yn ôl i'r Pwyllgor Cyllid pan fydd y gyllideb yn cael ei pharatoi'r flwyddyn nesaf. (Tudalen 13)

**Argymhelliad 2.** Rydym yn argymell bod aelod o'r Pwyllgor (Mike Hedges AC) yn gweithio'n agos gyda'r Comisiwn i graffu ar wariant ac i adrodd yn ôl i'r Pwyllgor Cyllid pan fydd y gyllideb yn cael ei pharatoi'r flwyddyn nesaf. (Tudalen 13)

**Argymhelliad 3.** Rydym yn argymell bod y Comisiwn yn parhau i fonitro o ba ardal y daw ymwelwyr, ac ysgolion newydd sy'n ymweld â'r Cynulliad, yn unol â'i nod o roi cyfle i bob plentyn yng Nghymru ymweld â'r Cynulliad. Byddem hefyd yn annog agwedd hyblyg o ran cymhorthdal teithio a roddir i ysgolion o ogledd a gorllewin Cymru, i sicrhau nad yw'r gost na'r pellter yn ormod o rwystr. (Tudalen 17)

**Argymhelliad 4.** Rydym yn argymell y dylid rhoi gwybod i Gadeirydd y Pwyllgor Cyllid, a chael ei chymeradwyaeth, os cynigir newid y dangosyddion perfformiad mewn modd a fyddai'n golygu na ellid cymharu ffigurau'r flwyddyn neu'r chwarter cynt. (Tudalen 21)

**Argymhelliad 5.** Rydym yn argymell y dylai'r Comisiwn ystyried a allai weithio'n fwy tryloyw, a sut y gallai wneud hynny, a chynnig rhagor o fanylion am y rhaglenni newydd a'r risgiau a ddaw i'r amlwg mewn cyllidebau yn y dyfodol, gan hefyd sicrhau bod ei ddogfennau cyllideb yn parhau i fod yn hawdd eu deall. O'n rhan ni, bydd y Pwyllgor Cyllid yn ysgrifennu at y Comisiwn cyn cyhoeddi'r gyllideb ddrafft y flwyddyn nesaf yn esbonio pa fanylion ychwanegol a allai gynorthwyo'r pwyllgor i graffu arni. (Tudalen 21)

# Cyflwyniad

### Pwy ydym ni?

1. Pwyllgor trawsbleidiol o Gynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r Pwyllgor Cyllid, ac mae'n cynnwys Aelodau o bob un o'r pedair plaid wleidyddol a gynrychiolir yn y Cynulliad.

2. Nid yw’r Pwyllgor yn rhan o Lywodraeth Cymru. Yn hytrach, mae'r Pwyllgor yn gyfrifol am adrodd ar gynigion a roddwyd gerbron y Cynulliad gan Weinidogion Cymru sy'n ymwneud â defnyddio adnoddau. Gall y Pwyllgor hefyd ystyried ac adrodd ar unrhyw fater arall sy'n ymwneud â gwariant y tu allan i Gronfa Gyfunol Cymru, neu sy'n effeithio arni.

### Beth yw Comisiwn y Cynulliad?

3. Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw’r corff sy’n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a’i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

4. Yn ei ddogfen ei hun ar y gyllideb, mae Comisiwn y Cynulliad yn disgrifio'i hun fel a ganlyn: "Mae'r Comisiwn yn gwasanaethu'r Cynulliad Cenedlaethol i helpu i'w wneud yn sefydliad democrataidd cryf, hygyrch a blaengar ac yn ddeddfwrfa sy’n cyflawni’n effeithiol ar gyfer pobl Cymru."[1]

### Beth yw cyllideb ddrafft Comisiwn y Cynulliad?

5. Mae Rheol Sefydlog 20.13 Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn nodi:

> "Heb fod yn hwyrach na 1 Hydref ym mhob blwyddyn ariannol, rhaid i un o aelodau’r Comisiwn osod gerbron y Cynulliad gyllideb ddrafft ar gyfer y Comisiwn sy’n nodi’r symiau o adnoddau ac arian parod y mae’r Comisiwn yn bwriadu eu defnyddio ar gyfer y flwyddyn ariannol ganlynol a darpar symiau ar gyfer y ddwy flynedd ddilynol neu ar gyfer unrhyw gyfnod arall y mae’r Comisiwn wedi cytuno arno gyda Gweinidogion Cymru."[2]

6. Mae'r Pwyllgor Cyllid yn gyfrifol am adrodd ar y gyllideb ddrafft hon.

---

[1] Cynulliad Cenedlaethol Cymru, cyllideb ddrafft Comisiwn y Cynulliad 2014-15, t3.
[2] Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Rheolau Sefydlog Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Rheol Sefydlog 20.12

**Pam craffu ar y gyllideb ddrafft?**

7. Mae Comisiwn y Cynulliad yn cael arian cyhoeddus a, chan hynny, mae'n bwysig ei fod yn sicrhau'r gwerth gorau posibl am arian. Mae'r broses o graffu'n fanwl ar gynigion cyllideb y Comisiwn yn ddull allweddol o gadarnhau a yw'n gwneud hynny.

8. Fel y nodwyd uchod, mae Comisiwn y Cynulliad hefyd yn gyfrifol am ddarparu gwasanaethau seneddol o'r radd flaenaf. Mae ganddo, felly, ran bwysig i'w chwarae yn y gwaith o sicrhau bod Llywodraeth Cymru yn cael ei ddwyn i gyfrif yn ddemocrataidd.

9. Yn dilyn ein hadroddiad, mae Rheol Sefydlog 20.16 yn nodi:

> "Rhaid i un o aelodau'r Comisiwn gyflwyno cynnig y dylid derbyn y gyllideb a osodwyd o dan Reol Sefydlog 20.15 a'i hymgorffori yn y cynnig cyllideb blynyddol o dan Reol Sefydlog 20.26(ii)."[3]

10. Gan hynny, bydd cynnig y gyllideb derfynol (cynnig y gyllideb flynyddol) fel sy'n ofynnol o dan Adran 125 o *Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006*. Mae *Deddf Llywodraeth Cymru 2006* yn darparu bod yn rhaid cyflwyno o leiaf un cynnig cyllideb (cynnig y gyllideb flynyddol) mewn perthynas â phob blwyddyn ariannol.

11. Mae Rheol Sefydlog 20.29 yn nodi na chaniateir cyflwyno gwelliant i gynnig y gyllideb flynyddol.

**Sut yr aethom ati i graffu ar y gyllideb ddrafft?**

12. Ystyriwyd Cyllideb Ddrafft Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2013-14 yn ein cyfarfod ar 3 Hydref 2012.

13. Yn y cyfarfod hwn, cawsom dystiolaeth gan:

- Angela Burns AC, Comisiynydd
- Claire Clancy, Prif Weithredwr a Chlerc y Cynulliad; a
- Nicola Callow, Pennaeth Cyllid

14. Yn dilyn y cyfarfod ar 3 Hydref 2013, anfonodd y tystion dystiolaeth ysgrifenedig ychwanegol at y Pwyllgor am nifer o faterion a godwyd yn ein cyfarfod.[4]

---

[3] Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Rheolau Sefydlog Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Rheol Sefydlog 20.16

15. Mae ein hadroddiad wedi'i seilio ar y pedair egwyddor ar gyfer craffu ariannol:

- Fforddiadwyedd
- Blaenoriaethu
- Gwerth am Arian
- Proses y gyllideb

| **Ffeithiau allweddol** |
|---|
| 2013-14 = £49.5m<br>2014-15 = £50.6m<br>2015-16 = £50.9m |

[4] Llythyr gan Angela Burns at y Pwyllgor Cyllid

# 1. Cyllideb Comisiwn y Cynulliad yn gyffredinol

16. Cyllideb y flwyddyn hon yw'r drydedd flwyddyn mewn cynllun buddsoddi tair blynedd. Yn 2011, cytunodd y Pwyllgor Cyllid ar bwyslais cyffredinol y cynllun buddsoddi hwn - a gynlluniwyd i ganiatáu i'r Cynulliad ysgwyddo'r cyfrifoldebau ychwanegol a gododd o'r refferendwm ar bwerau, ac fe'i cadarnhawyd yn 2012.

17. Yn ei sylwadau agoriadol, dywedodd Angela Burns:

> "You will all, I am sure, recall that the Commission set a very clear strategy for the fourth Assembly, which was underpinned by a programme of investment and service delivery that I believe has kept us true to our aims. Again, for refreshment, our aims are to provide outstanding parliamentary support, to engage with the people of Wales, to promote Wales, and to use our resources as wisely as we can. In order to achieve these aims, we sought the agreement of the Finance Committee to commit to a measured investment programme over three financial years, commencing in 2012-13. So, the budget you have before you is our final year—2014-15—and we believe that the level of funding for which we are seeking your approval is exactly that as set out for the final year of that three-year programme."[5]

18. Mae'r Pwyllgor Cyllid yn nodi mai hon yw blwyddyn olaf cynllun buddsoddi tair blynedd. Y llynedd, argymhellwyd na ddylai unrhyw gynnydd yn y gyllideb yn ystod gweddill y Cynulliad fod yn fwy na'r cynnydd yn y grant bloc. Rydym yn falch o weld bod y Comisiwn wedi cadw at hyn yn ei gynlluniau dangosol ar gyfer 2015-16. Cytunodd y Pwyllgor yn unfrydol i ailadrodd y canllaw hwn pan fydd y Comisiwn yn paratoi ei gyllideb ddrafft ar gyfer 2015-16.

19. Flwyddyn yn ôl, gofynnodd y pwyllgor hefyd i'r Comisiwn ddarparu dangosyddion perfformiad i'w gwneud yn hawdd i'r Aelodau weld a oedd y buddsoddiad ychwanegol yn arwain at berfformiad gwell.

[5] Cynulliad Cenedlaethol Cymru, y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, dydd Iau 3 Hydref. Paragraff 4

20. Cafwyd y dangosyddion perfformiad hyn ac roeddem yn falch o glywed bod y Comisiwn hefyd yn eu hystyried yn fan cychwyn ar gyfer gwneud rhagor o waith i gofnodi sut y mae perfformiad yn gwella.[6]

[6]Cynulliad Cenedlaethol Cymru, y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, dydd Iau 3 Hydref. Paragraff 6

# 2. Fforddiadwyedd

21. Roedd tair prif agwedd ar fforddiadwyedd cyllideb y Comisiwn a oedd yn peri pryder i'r Pwyllgor Cyllid. Roedd y rhain yn ymwneud â'r gallu i gyflawni amcanion y Cynllun Ieithoedd Swyddogol, y Strategaeth TGCh a phenderfyniad y Bwrdd Taliadau Annibynnol.

**Y Cynllun Ieithoedd Swyddogol**

22. Mae Deddf Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Ieithoedd Swyddogol) 2012, yn gosod dyletswydd statudol ar y Cynulliad a'r Comisiwn i drin y Gymraeg a'r Saesneg yn gyfartal.

23. Mae dogfen y gyllideb yn nodi:

> "Ein huchelgais yw bod yn sefydliad gwirioneddol ddwyieithog lle gall Aelodau'r Cynulliad a'r cyhoedd ddewis gweithio a chyfathrebu drwy ddefnyddio'r naill iaith neu'r llall neu'r ddwy iaith swyddogol, ac yn sefydliad lle bydd y defnydd o'r ddwy iaith yn destun balchder i bawb."[7]

24. Gofynnodd yr Aelodau a oedd digon o arian ar gael ar gyfer y rhaglen.

25. Dywedodd Angela Burns:

> "Yes and no… 'Yes' in that, for what we are trying to do at present, we believe we have the funds…but 'no', not for every single engagement. What we are very much trying to do is not treat language as a bolt-on; we are trying to integrate both of our languages throughout our work as a Commission, and that will take us time, and it is going to take money and resource, and we have to do it in a practical, pragmatic and responsible way."[8]

26. Ychwanegodd Claire Clancy, Prif Weithredwr a Chlerc y Cynulliad, fod blaenoriaeth yn cael ei roi i gynlluniau fel cyfieithu peirianyddol a fyddai'n caniatáu i ragor o eiriau gael eu cyfieithu'n gynt.

27. Rhoddodd yr Aelodau ganmoliaeth i'r gwaith a oedd yn mynd rhagddo gyda Microsoft i wella'r rhaglen gyfieithu hon a allai arwain at gynnwys cyfieithu fel rhan o'i raglenni swyddfa. Os bydd y gwaith yn llwyddiannus, nid dim ond y

---

[7] Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Cyllideb Ddrafft Comisiwn y Cynulliad 2014-15, tudalen 16.
[8] Cynulliad Cenedlaethol Cymru, y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, dydd Iau 3 Hydref. Paragraff 44

Cynulliad fydd yn elwa, ond hefyd sefydliadau ac unigolion ledled Cymru sy'n defnyddio meddalwedd Microsoft.

28. Dywedodd Claire Clancy:

> "We have been working with Microsoft to populate their language tool. If we can get it up to standard it will be a step forward, not just for us but right across Wales. We've fed in to the system every translation we have ever had. We think that effort is worth it. Without tools of this sort the costs could be prohibitive."

29. Mae'r Pwyllgor Cyllid yn dal yn amau a fydd cyfanswm y gost o roi'r Cynllun Ieithoedd Swyddogol ar waith yn fforddiadwy.

**Rydym yn argymell bod aelod o'r Pwyllgor (Paul Davies AC) yn gweithio'n agos gyda'r Comisiwn i graffu ar wariant ac i adrodd yn ôl i'r Pwyllgor Cyllid pan fydd y gyllideb yn cael ei pharatoi'r flwyddyn nesaf.**

### Y Strategaeth TGCh

30. Yn gynharach eleni, cytunodd y Comisiwn i ddod â'i gontract presennol i ben a darparu gwasanaeth TGCh yn fewnol. Dywedodd y Comisiynydd y byddai hyn yn arwain at fwy o dryloywder a gwasanaeth gwell. [9] Gan nad oedd ffigurau manwl ar gael i ddangos costau ac arbedion y cynigion newydd, gofynnodd yr Aelodau faint o arian fyddai'n cael ei arbed.

31. Dywedodd Angela Burns:

> "We believe that this will give us savings of about 10% over time, once we have actually completed the task. I am not going to say to you, 'Here is 10%-worth of savings', because, as we all know, ICT is a hungry beast that constantly has to be updated and constantly fed. What we are intending to do is to constantly redeploy that 10%."[10]

**Rydym yn argymell bod aelod o'r Pwyllgor (Mike Hedges AC) yn gweithio'n agos gyda'r Comisiwn i graffu ar wariant ac i adrodd yn ôl i'r Pwyllgor Cyllid pan fydd y gyllideb yn cael ei pharatoi'r flwyddyn nesaf.**

---

[9] Cynulliad Cenedlaethol Cymru, y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, dydd Iau 3 Hydref. Paragraff 65
[10] Cynulliad Cenedlaethol Cymru, y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, dydd Iau 3 Hydref. Paragraff 65

**Y Bwrdd Taliadau**

32. Mae'r Bwrdd Taliadau Annibynnol yn pennu cyflogau a lwfansau'r Aelodau a'u staff. Y flwyddyn nesaf, bydd 28% o gyllideb y Comisiwn yn cael ei wario ar eitemau y bydd y Bwrdd yn penderfynu arnynt.

33. Gofynnodd yr Aelodau a oedd unrhyw newidiadau yn yr arfaeth a allai effeithio ar y gyllideb. Fe'u sicrhawyd bod darpariaeth wedi'i wneud ar gyfer yr holl benderfyniadau yn ystod y flwyddyn i ddod.

34. Dywedodd Claire Clancy:

> "Everything that we know that it has already decided is in the budget. We have provision to fund the work that it has in its work plan for the remainder of this year and there are no more decisions scheduled that will have a budget implication for 2014-15. There potentially will be decisions that would have implications beyond that, and when we come to you with future budgets, we will make provision for that."[11]

[11]Cynulliad Cenedlaethol Cymru, y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, dydd Iau 3 Hydref. Paragraff

# 3. Blaenoriaethu

## Cynaliadwyedd

35. Gofynnodd yr Aelodau a oedd targedau uchelgeisiol y Comisiwn ar gyfer lleihau carbon yn dal yn gyraeddadwy.

36. Dywedodd Nicola Callow:

> "We have also done all the quick and easy things that we can do to really improve our targets. So, we are now bringing the Carbon Trust back in and working alongside that organisation and Arup to develop our carbon reduction route-map, the aim of which will be to set out for us the options for the sorts of things that we could do, the costs associated with them and benefits that they would bring to achieving our targets. That work is about to be commissioned and will have an end date of January 2014, at which point we will have enough information to start taking some decisions.
>
> "In the meantime, we have been doing what we can with integrating sustainability into maintenance, refurbishment and any other types of renewal work that we have been doing. You may have noticed the LED lighting, the passive infrared sensor lighting and things such as that. We have also been linking the air conditioning and heating controls to the lighting in meeting rooms, so, when one goes down, the others go to a default setting. We have been doing all sorts of things like that, but it is going to be a challenge to keep delivering against our sustainability targets, most certainly."[12]

## Trawsnewid Strategol

37. Nododd yr Aelodau bod tîm newydd wedi'i greu i arwain y gwaith o drawsnewid y Cynulliad yn strategol dros y blynyddoedd nesaf, ac roeddent am wybod a oedd gan y tîm hwn ddigon o adnoddau.

38. Dywedodd Claire Clancy y byddai'r tîm yn gweithio'n agos gyda thimau eraill yn y Cynulliad, felly roedd ganddynt ddigon o adnoddau ar hyn o bryd.

---

[12] Cynulliad Cenedlaethol Cymru, y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, dydd Iau 3 Hydref. Paragraffau 159-160

## Ymgysylltu â phobl ifanc

39. Mae'r Cynulliad ar hyn o bryd yn ymgynghori ynghylch rhaglen newydd ar gyfer ymgynghori â phobl ifanc. Cafodd y gwaith a wnaed hyd yma ei ganmol gan yr Aelodau ond roeddent am wybod a oedd y gyllideb yn caniatáu i'r Comisiwn ymateb i'r ymgynghoriad.

40. Dywedodd Angela Burns:

> "We obviously do not know what is going to come out of the consultation. We have left if very much to the young people to tell us what they think, rather than a raft of usual suspects telling young people what they think they should have. So, anything is on the table and any possibilities are out there. We have a small sum of money set aside that we can start to use on the projects that they bring forward, but, again, they are going to have to pass the test of being fair, reasonable and practical, and it will be a gradual implementation."[13]

## Ymweliadau gan ysgolion

41. Gofynnodd yr Aelodau a oedd ysgolion o bob rhan o Gymru yn gallu ymweld â'r Cynulliad ynteu a oedd yr ysgolion agosaf yn ddaearyddol yn archebu pob slot a oedd ar gael. Gofynnwyd a oedd yn anodd i ysgolion fanteisio ar y gwasanaeth addysg yn rheolaidd gan fod y slotiau wedi'u llenwi eisoes.

42. Mewn ymateb ysgrifenedig, nododd Angela Burns y bu llawer o newidiadau yn y modd y mae ysgolion yn archebu slot a hynny er mwyn sicrhau bod y broses yn decach.

> "In the past the Education Bookings Calendar opened on the first Monday after Spring half term for the whole of the forthcoming academic year. This operated on a first come first served basis.
>
> "This year the Education Bookings Calendar opened on 03 June for the Autumn term – the months of September to December 2013 only. For bookings for the Spring and Summer terms bookings will open after half term on Monday 04 November. It is still a first come first served service.

---

[13] Cynulliad Cenedlaethol Cymru, y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, dydd Iau 3 Hydref. Paragraff 100

"Schools are not turned away since we can offer other dates and if those are not suitable we can offer a Senedd only visit or an outreach presentation."[14]

43. Mae'r llythyr gan Mrs Burns yn nodi:

"During the academic year 2012-13 the education service delivered presentations and workshops to a total of 557 groups (616 in 2011-12), 415 schools and colleges reaching an audience of 16,158 pupils (17,698 in 2011-12). This figure also includes youth groups outside formal education.

"A total number of 49 groups visited from North Wales. This amounts to 18% of all visits to Siambr Hywel. The table below shows the breakdown via constituency of schools who received educational visits at the Assembly."[15]

Tabl 1

| **Etholaeth** | **Nifer yr ymweliadau** |
|---|---|
| Ynys Môn | 7 |
| Arfon | 10 |
| Aberconwy | 3 |
| Gorllewin Clwyd | 4 |
| Dyffryn Clwyd | 1 |
| De Clwyd | 9 |
| Delyn | 3 |
| Dwyfor Meirionydd* | 5 |
| Alun a Glannau Dyfrdwy | 1 |
| Wrecsam | 6 |

44. Er bod y Cynulliad yn cyfrannu at gostau teithio ysgolion o ogledd a gorllewin Cymru sy'n trefnu ymweliad addysgol, mae'r Aelodau yn parhau i bryderu am y ffaith nad oes cymorth ariannol ar gael i ysgolion sy'n ymweld â'r Senedd. Os nad yw ysgol yn archebu gwasanaeth Addysg swyddogol, ac yn cael y cymhorthdal ariannol cysylltiedig, gall fod yn rhy ddrud iddynt ymweld â'r Senedd

**Rydym yn argymell bod y Comisiwn yn parhau i fonitro o ba ardal y daw ymwelwyr, ac ysgolion newydd sy'n ymweld â'r Cynulliad, yn unol â'i nod o**

[14] Llythyr gan Angela Burns
[15] Llythyr gan Angela Burns

**roi cyfle i bob plentyn yng Nghymru ymweld â'r Cynulliad. Byddem hefyd yn annog agwedd hyblyg o ran cymhorthdal teithio a roddir i ysgolion o ogledd a gorllewin Cymru, i sicrhau nad yw'r gost na'r pellter yn ormod o rwystr.**

## 4. Gwerth am arian

45. O gofio bod Comisiwn y Cynulliad wedi gwneud cais llwyddiannus am gynnydd yn ei gyllideb a oedd yn uwch na'r hyn a roddwyd i weddill y sector cyhoeddus, gofynnodd yr Aelodau a oedd yn rhoi digon o sylw i werth am arian.

46. Dywedodd Angela Burns:

> "When we put together our three-year investment programme, we very much made sure that some of the underpinning drivers for the entire programme would be a constant search for value for money, a constant search for things like competitive tendering, and a constant search for making sure that every single penny that we planned for those three years was going to be utilised on the areas that we had initially indicated. Of course, nothing in life is ever perfect, so we have had the odd blip here or there where we might have said, 'Right, we will take that bit of money and put it here, because, in fact, that has taken a lot less funding than we thought'. As I say, the value-for-money element of our entire three-year investment programme has, I think, ensured that we have delivered as much of the savings as we possibly could within that three-year time frame."[16]

**Paratoi at y dyfodol**

47. Mae dangosyddion gwariant cyhoeddus yn y dyfodol yn awgrymu ei bod yn annhebygol y bydd cyllideb y Cynulliad yn cynyddu yn y dyfodol agos. Gofynnodd yr Aelodau a oedd y Comisiwn wedi paratoi'n ddigonol ar gyfer hyn.

48. Dywedodd Angela Burns:

> "We have tailored into our prediction for the following year a reduction of just over 1%, which we believe, from reading all of the mood music out there, will be in line with what will happen with the CSR and the block grant. Of course, we are in constant dialogue with the Welsh Government to try to make sure that we are completely in tune with what happens.
>
> "When we made our three-year plan to you, if you recall, we were very clear that, once we had done this investment programme we felt that that would give us the bandwidth, if you like, to carry on on a very flat

[16]Cynulliad Cenedlaethol Cymru, y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, dydd Iau 3 Hydref. Paragraff 8

plane for a substantial number of years, just to re-group, if you like, gather strength and to see the next way forward. We have not made enormous plans, though, for the fifth Assembly, because we feel that it is only right that the commissioners who will be elected by the Assembly for that fifth Assembly should have the ability to set their own programme. What we would encourage them to do is to come to an agreement and set a three or four-year rolling programme, because that has made it an awful lot easier to manage our budgets than having to come every year and try to wonder what we can do next. The three-year programme has been a real success, I think."[17]

[17]Cynulliad Cenedlaethol Cymru, y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, dydd Iau 3 Hydref. Paragraff 11

## 5. Y broses

### Dangosyddion perfformiad

49. Roedd y Pwyllgor Cyllid yn croesawu'r ffaith bod dangosyddion perfformiad allweddol wedi'u cyhoeddi a nodwyd y bwriad i sicrhau y byddant yn fwy effeithiol ymhen amser.

50. Fodd bynnag, roedd yr Aelodau yn awyddus i sicrhau nad oedd unrhyw newidiadau'n cael eu cyflwyno ar draul y gallu i gymharu perfformiad â'r blynyddoedd blaenorol.

**Rydym yn argymell y dylid rhoi gwybod i Gadeirydd y Pwyllgor Cyllid, a chael ei chymeradwyaeth, os cynigir newid y dangosyddion perfformiad mewn modd a fyddai'n golygu na ellid cymharu ffigurau'r flwyddyn neu'r chwarter cynt.**

### Dim ffigurau ar gyfer y drydedd flwyddyn.

51. Yn draddodiadol, mae cyllideb ddrafft y Comisiwn yn pennu ffigurau dros dro ar gyfer y ddwy flynedd ar ôl y gyllideb ddrafft - ond eleni, ffigurau ar gyfer dim ond un flwyddyn ychwanegol sydd wedi'u pennu. Cadarnhaodd Mrs Burns yn y pwyllgor, ac yn ei hymateb ysgrifenedig, fod Gweinidogion Cymru wedi cytuno i hyn, gan nad yw llywodraeth y DU wedi darparu unrhyw ffigurau dros dro cyn belled â hynny i'r dyfodol.

### Tryloywder yn erbyn hygyrchedd

52. Roedd yr Aelodau yn hoffi cynllun cyllideb ddrafft y Cynulliad gan ei bod yn hawdd i'w darllen ond, unwaith eto, roeddent yn amau a oedd digon o fanylion mewn rhai adrannau ee diffyg ffigurau'n dangos arbedion penodol yn gysylltiedig â darparu gwasanaethau TGCh yn fewnol.

53. Mae llawer o'r ddogfen yn canolbwyntio ar newidiadau a wnaed yn ystod y flwyddyn gyfredol, yn hytrach nag yn manylu ar y modd y bydd newidiadau mewn gwariant yn dylanwadu ar newidiadau mewn perfformiad yn ystod y flwyddyn nesaf.

**Rydym yn argymell y dylai'r Comisiwn ystyried a allai weithio'n fwy tryloyw, a sut y gallai wneud hynny, a chynnig rhagor o fanylion am y rhaglenni newydd a'r risgiau a ddaw i'r amlwg mewn cyllidebau yn y dyfodol, gan hefyd sicrhau bod ei ddogfennau cyllideb yn parhau i fod yn hawdd eu**

**deall. O'n rhan ni, bydd y Pwyllgor Cyllid yn ysgrifennu at y Comisiwn cyn cyhoeddi'r gyllideb ddrafft y flwyddyn nesaf yn esbonio pa fanylion ychwanegol a allai gynorthwyo'r pwyllgor i graffu arni.**

## Tystion

Rhoddodd y tystion a ganlyn dystiolaeth lafar i'r Pwyllgor ar y dyddiadau a nodir isod. Gellir gweld trawsgrifiadau o'r holl sesiynau tystiolaeth yn llawn yn www.cynulliadcymru.org
http://www.senedd.cynulliadcymru.org/ieListDocuments.aspx?CId=229&MId=1791&Ver=4

*3 Hydref 2013*

| | |
|---|---|
| Angela Burns AC | Comisiynydd |
| Claire Clancy | Prif Weithredwr a Chlerc y Cynulliad |
| Nicola Callow | Pennaeth Cyllid |

## Rhestr o'r dystiolaeth ysgrifenedig

Rhoddodd y canlynol dystiolaeth ysgrifenedig i'r Pwyllgor. Gellir gweld yr holl dystiolaeth ysgrifenedig yn llawn yn

http://www.senedd.cynulliadcymru.org/mgIssueHistoryHome.aspx?IId=1707

| *Sefydliad* | *Cyfeirnod* |
|---|---|
| Angela Burns AC, Comisiynydd | FIN(4)-15-13 Papur 1 |
| | FIN(4)-15-13 Papur 2 |
| | Cais amragor o wybodaeth ganGomisiwn y Cynulliad yn ycyfarfod a gynhaliwyd ar 3Hydref 2013 |